Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 20.07.2021

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau ebost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar:
  https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on:
  https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# COVID-19: Cyfyngiadau Lefel Rhybudd 1 o 17 Gorffennaf 2021

Cewch mwy o wybodaeth am Lefel Rhybudd 1 ar y dolenni canlynol:

- Cyfyngiadau o 17 Gorffennaf: crynodeb
  https://llyw.cymru/cyfyngiadau-o-17-gorffennaf-crynodeb

- Cyfyngiadau o 17 Gorffennaf: cwestiynau cyffredin
  https://llyw.cymru/cyfyngiadau-o-17-gorffennaf-cwestiynau-cyffredin

- Ymgynnull gyda phobl eraill: cyfyngiadau o 17 Gorffennaf https://llyw.cymru/ymgynnull-gyda-phobl-eraill-cyfyngiadau-o-17-gorffennaf

Mae rheoliadau Lefel Rhybudd 1 yn golygu ei bod yn ofynnol i rannu'r risgiau a'r mesurau lliniaru a nodwyd yn yr asesiad risg COVID gyda chydweithwyr. Mae Lefel Rhybudd 1 a Lefel Rhybudd 0 yn cynyddu'r pwyslais ar fusnesau unigol i gwblhau a chynnal asesiad risg. Mae cyngor a gwybodaeth ar gael gan yr Awdurdod Iechyd a Diogelwch (HSE) yn:

https://www.hse.gov.uk/coronavirus/working-safely/risk-assessment.htm

Ceir gwybodaeth defnyddiol, sydd yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd, ar wefan UK Hospitality ar:

https://www.ukhospitality.org.uk/page/WalesGuidance

Gellir lawrlwytho arwyddion, sy'n esbonio'r gwahaniaeth rhwng rheoliadau COVID-19 yng Nghymru a Lloegr, i'w harddangos yn eich busnes, ewch i: :

https://wales.assetbank-server.com/assetbank-wales/images/assetbox/3d252715-8314-4547-88a3-b8a9e60df58e/assetbox.html

Mae'n parhau i fod yn ofynnol i bob adeilad lletygarwch – trwyddedig a heb drwydded – gadw cofnodion o gwsmeriaid, staff ac ymwelwyr. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/32OatFI

# ARIANNU: Y Gronfa Economi Gylchol: WRAP Cymru

Mae buddsoddiad cyfalaf i gynyddu cynnwys wedi'i ailgylchu mewn cynhyrchion a weithgynhyrchir yng Nghymru, neu i ymestyn oes ddefnyddiol cynhyrchion, ar gael o'r Gronfa Economi Gylchol. Caiff sefydliadau cymwys o unrhyw faint wneud cais naill ai am grant ar Raddfa Fach ar gyfer prosiectau gyda chyfanswm costau cyfalaf o £75,000 hyd £335,000, neu grant ar Raddfa Fawr ar gyfer prosiectau gyda chyfanswm costau cyfalaf o fwy na £335,000, gydag uchafswm grant posibl o £770,000.

- Am wybodaeth ynghylch grantiau ar Raddfa Fach, ewch i: https://wrapcymru.org.uk/cy/gweithredu/grantiau/raddfa-fach

- Am wybodaeth ynghylch grantiau ar Raddfa Fawr, ewch i: https://wrapcymru.org.uk/cy/gweithredu/grantiau/raddfa-fawr

## CYFLOGAETH: Hysbysfwrdd swyddi gwag a nodyn atgoffa Isafswm Cyflog Cenedlaethol

- Cafwyd ymateb gwych i'r hysbysfwrdd swyddi gwag a lansiwyd yn ddiweddar ar Facebook gan fenter Cyngor Gwynedd, Gwaith Gwynedd. Mae dros 390 o gyflogwyr a cheiswyr gwaith eisoes yn aelodau o'r Grŵp. I ymuno â nhw, ewch i:

https://www.facebook.com/groups/1169426113501265/

- Mae Cyllid a Thollau EM yn atgoffa cyflogwyr a gweithwyr o'r hawl i'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol (NMW). Mae hyn yn cynnwys staff tymhorol dros dro, sy'n aml yn gweithio contractau tymor byr mewn bariau, gwestai, siopau a warysau dros yr haf. I gael mwy o wybodaeth am y cyfraddau, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/cy/newyddion-blogiau/newyddion/staff-yr-haf-nodyn-atgoffa-i-gyflogwyr-cyfradd-isafswm-cyflog-cenedlaethol

## GWEITHGYNHYRCHU: MADE Cymru

Mae recordiadau o Uwchgynhadledd Diwydiant diweddar MADE Cymru ar gael rŵan yn ogystal â llefydd wedi'w hariannu ar eu cyrsiau 'Uwchsgilio ar gyfer Diwydiant 4.0' a 'Rheoli Arloesedd', yn dechrau Hydref 2021. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.madecymru.co.uk/cy/ neu e-bostio: MADE@uwtsd.ac.uk

Mae recordiadau o'r uwchgynhadledd ar gael ar:

https://uwtsd.ac.uk/cy/made/uwchgynhadledd-diwydiant-made-cymru/

# BREXIT: Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE – gwybodaeth i gyflogwyr

Mae pecyn cymorth a thaflen ffeithiau a i gyflogwyr am Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yn dilyn dyddiad cau ceisiadau 30 Mehefin 2021 wedi eu cyhoeddi, ewch i:

- Pecyn cymorth
  https://bit.ly/3xGTH9n

- Taflen ffeithiau
  https://bit.ly/3wIWg9k

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru